

|                                   |  |
|-----------------------------------|--|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Cyngor</b>                                  |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>2 Gorffennaf 2019</b>                       |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Ian Trigger, Cadeirydd Pwyllgor Safonau</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Gary Williams – Swyddog Monitro</b>         |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau</b>  |

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Dyma bedwerydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn ac mae'n cwmpasu blynyddoedd 2017 a 2018. Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn cyflwyno ei adroddiad ar y sail hon yn flynyddol i'r cyngor llawn, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am dueddiadau; materion yn ymwneud â chydymffurfio â chod ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol ar draws y Sir a gwaith y Pwyllgor wrth godi safonau ymddygiad ar lefel y Sir, ond hefyd ar lefelau Tref, Dinas a Chymuned. Nid oedd yn bosibl cyflwyno adroddiad y llynedd, felly mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Cytunodd y Pwyllgor Safonau y dylid cyflwyno adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor a'i ganfyddiadau a'i arsylwadau, i holl Aelodau'r Cyngor fel rhan o ymdrech y Pwyllgor i wella safonau ymddygiad moesegol a chydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

## **4. Manylion yr adroddiad**

4.1 Prif rôl y Pwyllgor Safonau yw monitro'r modd y glynir wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Mae pob aelod yn ymwybodol bod eu cod wedi'i seilio ar egwyddorion y dylai Aelodau eu cyflawni yn seiliedig ar 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan. Mae deg egwyddor yng Nghymru sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

4.2 Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys y mathau o Aelodau a ganlyn – 2 Gyngorydd Sir, 4 Aelod Annibynnol (cyfetholedig), ac 1 Aelod Cyngor Cymuned (nad yw hefyd yn aelod â dwy het). Felly nid yw'r rhan fwyaf o'r Aelodau wedi'u hethol, ond cânt eu recriwtio o blith aelodau'r cyhoedd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth safonau yng Nghymru. Hefyd, dim ond pan fydd o leiaf hanner yr Aelodau sy'n bresennol yn Aelodau Annibynnol y gall y Pwyllgor fod â chworwm.

Caiff aelodau annibynnol eu recriwtio drwy hysbyseb gyhoeddus, sy'n agored i bawb ar wahân i feini prawf caeth mewn perthynas â pheidio â bod yn swyddog neu'n aelod o'r Cyngor yn flaenorol o fewn terfynau amser penodol, gan eu bod o safon dda ac yn rhai priodoleddau penodol fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth. Ar wahân i hyn, mae'r cyfle ar gael i bobl o bob cefndir, er mwyn cynrychioli safbwyntiau'r cyhoedd o ran y safonau y maent yn disgwyl i'w haelodau etholedig eu cael.

4.3 Yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef cyfarfu'r Pwyllgor saith gwaith. Mae'r Pwyllgor yn derbyn nifer o eitemau sefydlog:

(a) Mynychu cyfarfodydd

Adroddiadau gan yr Aelodau safonau mewn perthynas â'u presenoldeb a'u sylwadau yng nghyfarfodydd Pwyllgorau a'r Cyngor, boed hynny ar lefel y Sir neu Gymuned. Mae gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych ddull rhagweithiol o godi safonau ac ymwybyddiaeth o'r cod ymddygiad. Mae Aelodau'r Pwyllgor yn mynychu i arsylwi ar ymddygiad ac effeithiolrwydd cyffredinol y cyfarfodydd; wedyn yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor, a all wneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw anghenion hyfforddi neu dueddiadau neu batrymau ymddygiad. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i'w gwneud yn glir mai eu dull o fynychu cyfarfodydd yw darparu cefnogaeth ac addysg, er mwyn targedu adnoddau i wella safonau a hyder y cyhoedd yn y gwaith hanfodol sy'n cael ei wneud ar lefel gymunedol, ar sail wirfoddol, ac nid oddi wrth unrhyw ongl orfodi neu gritigol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yn llawn y gwerth y mae cynghorau o'r fath a'u haelodau yn ei ychwanegu at gymunedau lleol.

(b) Trosolwg o gwynion a gyflwynwyd yn erbyn Aelodau gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

Cyflwynir yr adroddiad mewn sesiwn gaeedig a darperir manylion cyfyngedig i Aelodau mewn perthynas â chwynion parhaus yn ogystal â'r rhai sydd wedi cael eu gwrthod gan yr Ombwdsmon i ymchwilio iddynt. Darperir digon o fanylion i alluogi Aelodau i ystyried a ellir argymhell hyfforddiant neu gamau eraill i gynghorau tref, dinas a chymuned benodol sy'n wynebu problemau neu gynnydd mewn cwynion.

Bu cynnydd cyffredinol yn nifer y cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r rhan fwyaf o'r cwynion hyn yn ymwneud â chwynion yn erbyn aelodau cynghorau Tref, Dinas a Chymuned ac yn aml iawn maent yn cael eu cyflwyno gan Aelodau eraill o'r un cyngor. Nid ymchwiliwyd i'r mwyafrif helaeth o'r cwynion hyn gan yr Ombwdsmon sy'n gosod prawf dau gam, yn gyntaf a oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod achos o dorri'r Cod wedi digwydd, ac yn ail, a yw er budd y cyhoedd i'w swyddfa ymrwymo adnoddau i ymchwiliad.

(ch) Rhaglen Gwaith

Mae hyn yn annog ymagwedd fwy strategol tuag at rôl y Pwyllgor fel un rhagweithiol nid dim ond yn adweithiol i gwynion.

(d) Coflyfr y Cod Ymddygiad.

Mae'r Ombwdsmon yn cynhyrchu crynodeb chwarterol o gwynion y mae ei swyddfa wedi'u hystyried, gan nodi pa gamau a gymerwyd mewn perthynas â chwynion, a lle y bo'n berthnasol, y gosb a osodwyd.

- 4.4 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried nifer o faterion eraill yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried ceisiadau am ollyngiadau gan aelodau Cyngor Tref Bodelwyddan a Chyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn dadleuon ar faterion o bwys i'w cymunedau. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi adolygu ei weithdrefnau ar gyfer caniatáu gollyngiadau ac wedi cyflwyno ffurflen gais safonol.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi adolygu'r deunyddiau hyfforddi a ddefnyddir i hyfforddi aelodau etholedig ar y cod ymddygiad ar ôl i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gynhyrchu pecyn hyfforddi. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi adolygu Gweithdrefnau Datrys Lleol y Cyngor ar gyfer ymdrin ag aelodau lefel isel ar gwynion Aelodau yn y Cyngor Sir.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor i'r graddau y mae'n ymwneud ag ymddygiad aelodau etholedig. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn dod yn destun cwyn gan y cyhoedd ac aelodau etholedig fwyfwy o ran ymddygiad Aelodau.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiadau ar y Canllawiau Sancsiynau a gynhyrchwyd gan Banel Dyfarnu Cymru, ac o ganlyniad, mae wedi diwygio Gweithdrefnau Gwrandawriad y Cyngor ar gyfer ymdrin â chwynion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ei ymchwiliad i gŵyn.

- 4.5 Yn ystod y cyfnod hwn cynhaliwyd dau gyfarfod o Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru (y Fforwm). Roedd y Fforwm yn cynnwys Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Safonau pob un o'r 6 Chyngor yng Ngogledd Cymru ynghyd â Pharc Cenedlaethol Eryri a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Fforwm yn cyfarfod i drafod materion o ddiddordeb cyffredin ac mae'r Ombwdsmon yn mynychu o bryd i'w gilydd. Mae Cyngor Sir Ceredigion a Phowys a'r Awdurdod Tân ac Achub o Ganolbarth a'r Gorllewin wedi ymuno â'r Fforwm erbyn hyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Pwyllgor Safonau cwbl weithredol a chynrychioladol sy'n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan Aelodau yn helpu i ategu'r modd y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau democrataidd.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw oblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu gwneud gydag Archwilio ac eraill?**

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi'u cynnal ac eithrio bod ymgynghori wedi bod â'r Pwyllgor Safonau ar y cynnwys.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dim angen.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau wedi'u nodi.

**10. Power to make the Decision**

Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006.